

## Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr Ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Cofiw'n yn arbennig am Elwyn L. Jones (Peniel) a Jane Roberts (Henllan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Aled Roberts (Henllan) sy'n parhau yn Ysbyty Broadgreen. Hyderwn y bydd y tri yn gwella'n fuan, ac y bydd iddynt brofi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Da deall fod Alwena Edwards (Llanfair) wedi cael dod adre o'r ysbyty. Hyderwn y bydd hithau yn cael ei gwarchod a'i chynnal wrth iddi gryfhau dros yr wythnosau nesaf. Mae eraill yn yr Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd, rhai yn disgwyl canlyniadau, rhai yn derbyn triniaeth tymor hir ac eraill wedi derbyn triniaeth dros yr wythnosau diwethaf hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd.
- Parhawn i gofio am y rhai hynny sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd, a chyflwynwn hwy i ofal a thangnefedd Duw.
- Llongyfarchiadau i Gwyn Williams (Llanefydd) a Kathryn Gardner o Ganada ar eu dyweddiad. Dymunwn yn dda iawn i'r ddau ohonynt, a gweddiwn am fendith Duw ar eu perthynas.

## Diolch i bobl y Fro

Dyma oedd cynnwys llythyr a dderbyniwyd gan Cytûn yr wythnos hon: *“Diolch yn fawr iawn am eich holl ymroddiad ac ymdrech i wneud stondin yr Eglwys yn yr Eisteddfod eleni yn un llwyddiannus dros ben. Gobeithio y gallwch ddanfon ein diolchiadau ni, fel staff Cytûn, i bawb o'ch ardal ddaru chwarae rhan mor allweddol yn nhrefniadau'r stondin dros wythnos yr ŵyl. Roedd hi'n braf cydweithio hefo chi, a braf iawn dod i nabad yr ardal a phobl Dyffryn Clwyd. Gobeithio y cawn ni gyfle i gydweithio eto'n fuan!”*

## I ddod

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** (cyfarfod i'r merched) – “Coping with the Camel” (stori'r Torch Trust ar gyfer y deillion) gan Roselyn Barnes yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Medi 23ain am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- **CWRDD CHWARTER** nos Iau, Medi 26ain am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Graigfechan pryd y ceir hefyd gyfle i groesawu Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Y Parchg. J. Ronald Williams, Caernarfon, i annerch.
- **ADUNIAD LLANW** nos Wener a dydd Sadwrn, Medi 28ain-29ain yn y Bala. Cofiwch bod angen dychwelyd y ffurflen archebu lle, ynghyd â blaendal o £20, i Goleg y Bala HEDDIW!
- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Fercher Hydref 9fed am 7.00 pryd y bydd y Parch Thomas Evans Williams yn pregethu.
- **CYMDEITHAS LLANEFYDD** yng nghwmni'r ddwy Sian, sef Sian Bryn Hen gynt a Sian Bryniau Defaid, nos Iau, Hydref 10fed am 7.00 yng Nghapel Llanefydd.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15<sup>fed</sup> Medi 2013

Darlleniad y Dydd

Actau 8:34-40

(BCND tud.138 / BCN: tud.126)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso cynnes iawn i bawb ohonoch i'n hoedfaon arbennig heddiw. Rydym yn cael y fraint y bore yma o fwynhau cwmni cyfeillion o Eglwys Bresbyteriaid India. Croesawn hwy i'n plith a gweddiwn y bydd eu cyfnod yma yng Nghymru yn un bendithiol ac adeiladol, fel y gweddiwn fendith ar eu gwaith pwysig o rannu'r newyddion da am Iesu Grist â'u cydwladwyr. Rydym hefyd am longyfarch pawb a dderbyniodd anrhydedd Medal Gee am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul, a'r bobl ifanc fydd yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau o'u heglwys heno. Diolchwn i Dduw am barhau i gynnig gobaith a llawenydd i bobl o bob oed trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Yn ôl rhai, un o wendidau mwyaf dynion yw methiant llwyr i ofyn am help pobl eraill pan maent mewn twll! Os fuoch chi erioed mor anffodus a bod ar goll gyda dyn yn gyrru'r car, mae'n annhebygol mai ef a awgrymodd gofyn am gyfarwyddiadau gan unrhyw un arall (oni bai ei bod yn argyfwng!). Diolch byth, does gen i ddim cof o fod mewn sefyllfa fel honno fy hun, ond mi fyddaf yn aml yn cerdded milltiroedd rownd siopau yn syllu ar wahanol silffoedd yn hytrach na gofyn i'r staff am gymorth i ddarganfod y peth yr ydw i'n chwilio amdano.

Er mor ddoniol yw hyn, tybed ydym ni, yn ddynion ac yn ferched, yn tueddu i ddisgyn i'r un trap pan mae hi'n dod i gwestiynau mawr ein bywyd, ein dyfodol a'n ffydd? Ydym ni'n brwydro gydag amheuan ac ansicrwydd, yn chwilio ymhob man am gyfeiriad ac atebion ac wrth wneud hynny'n osgoi cyfarwyddyd ac arweiniad allai ein helpu'n fawr?

Mae darlleniad y dydd heddiw o lyfr yr Actau yn sôn am rywun yn cael arweiniad a chymorth tyngedfennol. Mae'r eunuch yn ymdrechu i ddeall darn o lyfr Eiseia, cyn i Philip ddod ato ac egluro o'r Beibl y newyddion da am Iesu Grist. Wrth wrando ac ystyried, a thrwy waith gwyrthiol yr Ysbryd Glân, mae'r dyn yn dod i ddeall, ac yn dod i gredu yn Iesu. Dyna'r her i ninnau hefyd, mynd at y Beibl a chalonnau agored a hyd yn oed bod yn barod i ofyn i eraill am arweiniad i weld pam bod Iesu Grist mor allweddol i ni. Cofiwch beth a ddywedodd Simon Pedr wrth Iesu:

“Arglwydd, at bwy awn ni?” meddai Simon Pedr, “Mae beth rwyt ti'n ei ddweud yn arwain i fywyd tragwyddol. Dŷn ni wedi dod i gredu, a dŷn ni'n gwybod mai ti ydy Un Sanctaidd Duw.” (Ioan 6:68-69 Beibl.net)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma

# OEDFA ARBENNIG I'R FRO

i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth  
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

**am 10.30**

i groesawu 18 o gyfeillion o'r India, y rhan fwyaf ohonynt  
yn weinidogion yn Eglwys Bresbyteraidd yr India.

**PLANT:** Bydd neges i'r plant yn ystod y gwasanaeth  
a bydd darpariaeth pellach ar eu cyfer yn y Festri yn ystod y bregeth.

Bydd yr ymwelwyr yn aros i gael cinio hefo ni.

**Gwahodddwn bawb i ddod â chinio hefo nhw** fel y cawn amser i gymdeithasu  
ac i fwynhau cwmniâeth yn dilyn yr oedfa. Bydd paned wedi ei pharatoi i chi.

Yna, bydd

# OEDFA ARBENNIG YN LLANNEFYDD

**am 6.00**

pryd y bydd rhai o ieuencid y Fro yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau o'u  
heglwys: Manon Owen, Rhiannon Johnson a Bedwyr Roberts (Llannefydd);  
Lona Roberts (Saron) ac Angharad Roberts (Eglwys Unedig Llansannan).

*Croeso cynnes i bawb.*

- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30. *Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274), os gwelwch yn dda.*
- Mercher • **Cyfarfod Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** am 7.30 yng Nghapel Trefnant yng nghwmni Rhodri Glyn. Croeso cynnes i bawb.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llannefydd am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Bethania, Rhuthun. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, a bydd Aneurin yn pregethu.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00.  
Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.  
Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

Sul nesaf Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol yn Saron am 10.00.  
Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

### Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 10.00 ac oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.

### Llannefydd a Chefn Berain

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00.  
Cynhelir Ysgol Sul yn Llannefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:  
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl  
adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.